

Cynllun leithoedd Swyddogol: Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

 0300 200 6565

 Cysylltu@cynulliad.cymru

.....
 www.cynulliad.cymru

 [CynulliadCymru](https://twitter.com/CynulliadCymru)

 [CynulliadCenedlaetholCymru](https://www.facebook.com/CynulliadCenedlaetholCymru)

 [Senedd](https://www.instagram.com/Senedd)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun leithoedd

Swyddogol:

Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2019





Cynnwys

Rhagair	7
Ein Perfformiad	9
Ein huchelgais a'n hymrwymiad.....	10
Safonau Gwasanaeth.....	11
Adborth gan Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth.....	11
Rhannu arbenigedd.....	11
Cynllunio'r gweithlu a pheuoedd iaith.....	12
Gwybodaeth ystadegol	14
Recriwtio	15
Busnes y Cynulliad	16
Trafodion y Cynulliad	18
Pwyllgorau	18
Themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun	21
Thema 1: Recriwtio	23
Thema 2: Sgiliau iaith.....	26
Thema 3: Cynllunio Ieithyddol.....	29
Thema 4: Trafodion y Cynulliad	30
Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad	33
Monitro a Chydymffurfio	36
Cwynion anffurfiol:.....	36
Cwyn ffurfiol	38
Adborth Positif	42

Croeso
i'r Senedd

—
Welcome
to the
Senedd

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ail Adroddiad Blynyddol ar Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y pumed Cynulliad. Roedd adroddiad blynyddol y llynedd yn disgrifio llawer o'r gwaith paratoi a chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach, ac mae'r adroddiad eleni yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar ein hamcanion hirdymor.

Dyma fy nghyfle cyntaf fel Comisiynydd y Cynulliad i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Adam Price AC, fy rhagflaenydd am ei waith yn sicrhau bod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y pumed Cynulliad wedi ymwreiddio a bod y sefydliad yn parhau i weithio tuag at ein huchelgais o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Eleni, mae llawer o'n gwaith wedi canolbwyntio ar lefelau sgiliau iaith ac ethos ein sefydliad, gwaith fydd yn parhau trwy gydol oes y Cynllun hwn.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos ffrwyth y gwaith o drawsnewid y ffordd rydym yn pennu lefelau sgiliau iaith wrth ddiffinio anghenion swyddi. Bellach, mae'r dull o ystyried sgiliau iaith yn fwy cywain, gan roi cyfle i ni ddathlu a chydabod sgiliau ar bob lefel. Maes o law, bydd hyn yn newid ethos ein sefydliad wrth i ni weld cyfleoedd cynyddol i bawb ddefnyddio'u sgiliau beth bynnag y bônt.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio ar y themâu sydd wedi eu nodi yn y Cynllun. Edrychaf ymlaen at weld gwireddu'r weledigaeth yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Siân Gwenllian

Comisiynydd y Cynulliad â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol





EIN PERFFORMIAD

Ein huchelgais a'n hymrwymiad

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r ddwy iaith neu'r naill iaith swydddogol neu'r llall, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus.

Mae ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i ddwyieithrwydd yn sail gadarn ar gyfer cyflawni'r uchelgais hwn, ac mae'r gwasanaethau a ddarperir gennym, ein strategaethau a'n gwerthoedd yn adlewyrchu statws cyfartal ein dwy iaith swydddogol. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad ac rydym yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o fewn ein gweithlu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Comisiwn y Cynulliad wedi dethol a chyflwyno cyfres newydd o werthoedd ar gyfer y sefydliad. Mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn sefydliad sy'n gwerthfawrogi ein holl staff, ac mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Roedd staff y Comisiwn yn rhan o'r broses o ddethol y gwerthoedd a disgwylir i bawb eu dilyn yn eu gwaith pob dydd.

EIN GWERTHOEDD



PARCH

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol



ANGERDD

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru



BALCHDER

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

UN TÎM YDYM NI

Safonau Gwasanaeth

Mae llawer o'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar roi canlyniadau'r gwaith paratoadol a wnaed y llynedd ar recriwtio ar waith. Prif nod y gwaith oedd cynyddu lefelau Cymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad ac adeiladu ar ein hethos dwyieithog presennol. Mae canlyniadau'r gwaith hwn i'w gweld ar draws y sefydliad, ac rydym yn ffyddiog ein bod wedi symud gam yn nes at wireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Adborth gan Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth

Mae deall anghenion Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau pwrpasol sy'n eu galluogi i weithio'n effeithiol yn eu dewis iaith. Y llynedd derbyniwyd adborth positif i'r ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog sy'n galluogi'r Aelodau a'u staff i weithio yn eu dewis iaith. Defnyddiwyd yr adborth hwnnw i flaenoriaethu adnoddau a chynllunio ein gwaith er mwyn cynnal y safonau uchel eleni eto.

Yn ogystal ag adborth ffurfiol rydym hefyd yn casglu gwybodaeth yn anffurfiol. Mae aelodau timau integredig y pwyllgorau yn trafod yn rheolaidd gydag Aelodau ac yn gweithredu yn ôl yr angen er mwyn newid prosesau, teilwra ein darpariaeth a gwella trefniadau. Mae'r grŵp gweithredol ar gyfer staff cymorth Aelodau Cynulliad hefyd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn fodd o gasglu adborth gan Benaethiaid Staff y grwpiau. Mae gan bob Aelod Cynulliad Gyfaill Cyswllt sy'n aelodau o staff y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Mae'r cyfeillion yn casglu adborth gan Aelodau Cynulliad pan fyddant yn dod i gysylltiad â hwy.

Rhannu arbenigedd

Mae sawl sefydliad o Gymru a thu hwnt wedi cysylltu â ni i drafod ein gwaith arloesol ac i ofyn am gyngor a chymorth dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn destun cryn falchder i ni allu croesawu dwy ddirprwyaeth o dramor yn ystod y flwyddyn.

Ymwelodd dirprwyaeth o uwch swyddogion o Senedd Sami Norwy â ni tra eu bod ar ymweliad â Chymru i ddysgu mwy am Gymraeg yn y gweithle, a gweithio'n ddwyieithog. Roedd gan yr ymwelwyr ddiddordeb yn ein system recriwtio a'n dull o ddynodi lefelau sgiliau iaith ar gyfer swyddi. Roedd y cysyniad o Gymraeg lefel cwrteisi hefyd o ddiddordeb mawr iddynt.

Roeddem hefyd yn falch iawn o groesawu dirprwyaeth o diwtoriaid iaith o'r Ffindir oedd â diddordeb unwaith eto yn ein dulliau o ddysgu Cymraeg yn y gweithle. Cafodd aelodau o'r Tîm Sgiliau Iaith gyfle i gwrdd â nhw hefyd i gyfnewid syniadau a thrafod dulliau addysgu.

Yn ogystal â'r ymweliadau tramor, mae sawl sefydliad o Gymru wedi cysylltu â ni i ofyn am gyngor. Eleni, mae'r rhan fwyaf o'n gwaith rhannu arbenigedd wedi canolbwyntio ar ein system recriwtio a'r matrices sgiliau iaith. Darparwyd sesiynau i ystod eang o bobl, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Abertawe ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Ymgysylltu hefyd wedi'i ethol i Gyngor Cyffredinol TUC Cymru fel yr aelod â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi cymryd rhan mewn sawl sesiwn hyfforddi a rhannu arferion da gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn cynorthwyo'r Ganolfan i beilota cyrsiau Cymraeg Gwaith newydd. Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau er mwyn rhannu arferion gorau a dysgu oddi wrth eraill.

Rydym am sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ganolog yng ngweinyddiaeth fewnol y sefydliad, a datblygu hyn ymhellach. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddarostyngedig i gyfundrefn safonau'r Gymraeg, nac yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i sicrhau na fydd ein safonau gwasanaeth yn mynd islaw ysbryd y safonau o gwbl, mae gwaith ar y gweill i sicrhau cydweithio agosach rhyngom a Chomisiynydd y Gymraeg. Trwy wneud hyn, rydym yn gobeithio y gallwn ddysgu gan eraill a rhannu arferion gorau.

Cynllunio'r gweithlu a pheuoedd iaith

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith weinyddol fewnol - Cymraeg a Saesneg. Rydym yn adolygu ein cynlluniau iaith gwasanaeth yn barhaus, ac yn eu hystyried yn ddogfennau byw. Caiff sgiliau iaith eu hystyried bob tro y bydd swydd yn cael ei chreu neu yn dod yn wag. Ein bwriad yw sicrhau ein bod yn ymateb i ofynion ieithyddol ein holl gwsmeriaid a hynny yn ddiofyn wrth i ni weithio tuag at wireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ddatblygu peuoedd ar draws y sefydliad gydag aelodau timau yn defnyddio'r Gymraeg yn brif gyfrwng gweithio o ddydd i ddydd, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Cydnabyddir bod gweinyddu mewnol cyfrwng Cymraeg yn caniatáu darparu gwasanaeth dwyieithog o safon yn uniongyrchol i gwsmeriaid yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am weld ymgais fwriadol i weld mwy o beuoedd yn cael eu datblygu dros amser. Grwpiau o siaradwyr Cymraeg rhugl,

neu gyfuniad o siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr sy'n ffurfio'r peuoedd, a chawsant eu creu trwy gyfuniad o recriwtio staff â sgiliau iaith penodol, ac aelodau staff presennol yn datblygu eu sgiliau. Ar hyn o bryd mae sawl enghraifft o beuoedd ar draws y sefydliad, gan gynnwys y timau canlynol:

- Swyddfa Breifat y Llywydd;
- Y Gwasanaeth Allgymorth;
- Ymgysylltu â Dinasyddion;
- Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc;
- Gwybodaeth i'r cyhoedd,
- Profiad Ymwelwyr
- Materion Ewropeaidd a Chyfansoddiadol o fewn y Gwasanaeth Ymchwil.

Yn ogystal, mae mwyafrif aelodau'r Tîm Arwain yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr, ac mae'r hysbyseb ar gyfer swydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn nodi gofynion sgiliau iaith lefel 3.

Cynhelir amryw o gyfarfodydd yn ddwyieithog naill ai yn naturiol oherwydd sgiliau iaith y cyfranogwyr, neu trwy ddefnyddio cyfieithu ar y pryd, gan gynnwys:

- Comisiwn y Cynulliad
- Y Tîm Arwain
- Cyfarfodydd i'r holl staff
- Grwpiau llywio a thasgluoedd amrywiol

Gellir gweld enghreifftiau eraill o weithio drwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd heb yr angen am gyfieithu ar y pryd gan gynnwys:

- Y Prif Weithredwr a dau o'r Cyfarwyddwyr yn defnyddio'r Gymraeg ymysg ei gilydd, gyda'u cynorthwywyr personol a staff dwyieithog ar draws pob gwasanaeth
- Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd gyda'u staff yn Gymraeg yn ddiofyn mewn rhai timau
- Caiff atebion i Gwestiynau Llafar i Gomisiwn y Cynulliad eu paratoi yn Gymraeg pan fydd modd i swyddogion sy'n drafftio ac yn cymeradwyo wneud hynny
- Caiff dogfennau briffio, areithiau a negeseuon e-bost ar ran y Llywydd, y Prif Weithredwr ac eraill eu drafftio yn Gymraeg yn rheolaidd
- Cynhelir cyfarfodydd mewnol yn Gymraeg pan fydd y sawl sy'n bresennol yn ddwyieithog
- Prosesau a chyfarfodydd adnoddau dynol ffurfiol ac anffurfiol
- Deunydd cyfathrebu, gweithdrefnau a phrosesau cyllid mewnol
- Gwasanaethau Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad.

Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio'r ymagwedd timau integredig i sicrhau bod y sgiliau priodol gan staff allweddol er mwyn darparu cefnogaeth lawn i gadeiryddion pwyllgorau yn eu dewis iaith. Bydd hyn yn ei dro yn creu awyrgylch ddwyieithog sy'n annog Aelodau Cynulliad ac unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn trafodion i ddefnyddio'u dewis iaith.

Gwybodaeth ystadegol

Y llynedd ychwanegwyd adran newydd i'r adroddiad blynyddol mewn ymateb i adborth gan Aelodau Cynulliad a chyfran ddeiliaid. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i flaenoriaethu ein gwaith ar y themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn. Darparwyd yr ystadegau ar gyfer eleni a'r llynedd yn y tablau isod hefyd er mwyn hwyluso cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Recriwtio

Mae'r ystadegau ar recriwtio a gyhoeddir ar gyfer eleni yn ymwneud â'r cyfnod 16 Gorffennaf 2019 (sef dyddiad rhoi'r system recriwtio newydd ar waith) hyd 31 Mawrth 2019 (sef diwedd y cyfnod adrodd).

Llynedd roedd gofyniad 'Cymraeg yn hanfodol' ynghlwm wrth 35% o'r swyddi a hysbysebwyd. Eleni, mae'r darlun yn wahanol iawn. Dros y blynyddoedd i ddod, bydd yr ystadegau isod yn fodd o fonitro sut mae'r system recriwtio newydd yn cael ei rhoi ar waith, ac yn dangos y newidiadau ym mhatrwm sgiliau iaith y sefydliad.

Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch

	Swyddi a hysbysebwyd	Lefel Cwrteisi	Lefelau 1 - 5
Allanol	54	35	19
Mewnol	18	11	7
Cyfanswm	72	46	26

Canran y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg cwrteisi - **64%**

Canran y swyddi a hysbysebwyd â gofynion sgiliau iaith ar lefel 1 i 5 - **36%**

Busnes y Cynulliad

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi amlinelliad o'r ffordd y caiff busnes ei gyflwyno.

Yn ein hadroddiad blynyddol y llynedd, ymrwymwyd i edrych am ffyrdd o gefnogi Aelodau a'u staff cymorth i sicrhau eu bod yn deall y systemau ac yn hyderus i ddefnyddio eu dewis iaith wrth gyflwyno busnes. Penderfynwyd cyfuno'r elfennau hyn mewn sesiwn hyfforddiant a ddarparwyd gan aelod o Dîm y Swyddfa Gyflwyno ac aelod o'r Tîm Ieithoedd Swydddogol.

Nod yr hyfforddiant oedd darparu cyflwyniad i'r feddalwedd ar gyfer cyflwyno busnes, a sesiwn gloywi iaith er mwyn rhoi'r hyder i Aelodau Cynulliad a staff cymorth wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth gyflwyno busnes. Nid yw'r ffigyrau isod yn cynnwys manylion cynigion a gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gan eu bod bob amser yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

Tabl 2: Canran y busnes a gyflwynwyd yn Gymraeg fesul eitem

Blwyddyn	Cwest Llafar	Cwest Ysg	Cynigion	Gwelliannau	Dat Barn	Cwest Amserol
2017-18	13%	7%	2%	7%	2%	10%
2018-19	11%	10%	3%	14%	5%	15%

Tabl 3: Dogfennau a osodwyd

Blwyddyn	Nifer y dogfennau a osodwyd	Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog	Canran y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog
2017-18	431	109	25%
2018-19	1187	310	26%

Caiff holl ddogfennau Comisiwn y Cynulliad eu gosod yn ddwyieithog yn ddiodyn. Eleni, cafwyd un eithriad lle gosodwyd adroddiad annibynnol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn Saesneg yn unig.

Mae'r ystadegau yn dangos yn glir bod cynnydd sylweddol yn nifer y dogfennau a osodwyd. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r gwaith paratoi ar gyfer Brexit, a chyflwynwyd y rhan helaeth o'r dogfennau hyn yn ddwyieithog, gan gynnwys y dogfennau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn anffodus, bu cynnydd bychan yng nghanran y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog. Unwaith eto eleni, mae'r rhan helaeth o'r dogfennau hynny yn

femoranda esboniadol neu yn ddogfennau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Pan fydd dogfennau nad ydynt yn ddwyieithog yn cael eu cyflwyno, bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gwirio a oes fersiwn ddwyieithog ar gael, neu a yw'r dogfennau yn cydymffurfio â'r eithriadau a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

Disgwylir i sefydliadau a chyrrff sy'n ddarostyngedig i safonau iaith neu gynlluniau iaith gydymffurfio â'r gofynion hynny. Pan nad yw'r safonau hynny yn berthnasol, neu os nad yw cyrrff yn ddarostyngedig i safonau neu gynlluniau iaith, gofynnir iddynt weithredu yn ysbryd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol gan barchu hawl Aelodau Cynulliad i ddefnyddio eu dewis iaith. Nid yw'r arfer o gyflwyno dogfennau yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth yn cydymffurfio ag ysbryd y Cynllun. Nid yw'n bosibl i Aelodau Cynulliad baratoi ar gyfer trafodion yn eu dewis iaith heb fynediad i ddogfennau o'r fath yn y ddwy iaith.

Yn unol â'r ymrwymiad yn ein hadroddiad blynyddol y llynedd, ysgrifennodd y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol at y Pwyllgor Busnes i ofyn am arweiniad ar y mater hwn. Gofynnwyd i swyddogion drafod ymhellach, a chynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion y Llywodraeth wedi ymrwymo i edrych ymhellach ar ddulliau posibl o flaenoriaethu gwaith cyfieithu er mwyn sicrhau bod canran uwch o'r dogfennau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddwyieithog gyda'r nod o gynyddu'r ganran honno yn flynyddol.

Trafodion y Cynulliad

Mae ein hymrwymiad i gefnogi Aelodau Cynulliad i weithio yn eu dewis iaith swydddogol yn gadarn. Byddwn yn monitro'r ystadegau isod gyda'r nod o gynyddu canran y cyfraniadau Cymraeg. Darperir hyfforddiant pwrpasol i Aelodau Cynulliad gan y Tîm Sgiliau Iaith i'w helpu i baratoi ar gyfer gwneud areithiau neu gyfraniadau yn Gymraeg. Mae aelodau timau integredig yn trafod yn barhaus gyda Chadeiryddion er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni'r rôl hollbwysig hon ac i ategu natur ddwyieithog ein trafodion.

Tabl 4: Canran y cyfraniadau Cymraeg

Math o gyfraniad	Canran y cyfraniadau Cymraeg 2017-18	Canran y cyfraniadau Cymraeg 2018-19
Trafodion y Cyfarfod Llawn	20%	18%
Trafodion Pwyllgorau	8%	7%

Pwyllgorau

Mae sicrhau y gall Aelodau Cynulliad baratoi ar gyfer trafodion Pwyllgorau trwy ddarparu dogfennau ar gyfer cyfarfodydd yn y ddwy iaith ar yr un pryd yn elfen bwysig o'n hymrwymiad i hwyluso gweithio dwyieithog. Mae timau'r pwyllgorau yn pwysleisio'r angen i gyflwyno tystiolaeth yn ddwyieithog wrth ofyn am dystiolaeth gan gyrff allanol, ac yn gofyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran safonau neu gynlluniau iaith.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl bob amser i unigolion neu fudiadau gwirfoddol ddarparu deunydd dwyieithog. Yn ogystal, mae trefniadau pob pwyllgor ar gyfer darparu papurau briffio yn unigryw i'r pwyllgor hwnnw, ac yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau aelodau'r cyfryw bwyllgor. Gall aelodau ddewis derbyn papur briffio wedi'i gyfieithu'n llawn, neu bapur gyda'r cwestiynau yn unig wedi eu cyfieithu. Bydd y timau integredig yn trafod yn rheolaidd gydag aelodau pwyllgorau i sicrhau eu bod yn hapus gyda'r trefniadau o ran papurau.

Tabl 5: Papurau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Cynulliad

	Cymraeg yn unig		Saesneg yn unig		Dwyieithog	
	2017-18	2018-19	2017-18	2018-19	2017-18	2018-19
Papurau a baratowyd yn fewnol	0	0	40*	96*	1172	781
Ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriadau	13	51	438	628	218	131
Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU	0	0	23	52	8	7
Llywodraeth Cymru	0	0	174	263	580	993
Aelodau unigol	0	0	3	3	6	11
Unigolion neu sefydliadau allanol	9	21	659	727	337	361

* Ymatebion uniongyrchol i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Saesneg. Yn unol â'r Cynllun, caiff unrhyw ymatebion ysgrifenedig i ohebiaeth gan unigolion neu sefydliadau eu drafftio a'u cyhoeddi yn newis iaith y sawl sy'n derbyn yr ohebiaeth gennym.



THEMÂU AR GYFER CYFNOD Y CYNLLUN





Thema 1: Recriwtio

Fis Gorffennaf 2017, sefydlwyd gweithgor ar recriwtio mewn partneriaeth â'n hundebau llafur. Nod y gweithgor oedd paratoi ar gyfer rhoi amcanion y thema hon ar waith erbyn mis Gorffennaf 2018.

Flwyddyn wedi sefydlu'r gweithgor, daeth y gwaith i ben, a chyflwynwyd newid sylweddol i'r ffordd y caiff holl swyddi gweigion Comisiwn y Cynulliad eu hysbysebu. Mae'r system newydd a ddaeth i rym ganol mis Gorffennaf 2018, wedi trawsnewid ein dull o ddiffinio'r sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer swyddi. Mae'r meini prawf penodol ar gyfer pob swydd yn cynnwys gofynion ieithyddol ar gyfer y swydd. Cytunodd y gweithgor ar fatrics sgiliau iaith yn cynnwys sgiliau siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu ar draws pum lefel, yn ogystal â diffiniad ar gyfer Cymraeg lefel cwrteisi.

Erbyn hyn felly, mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu gyda naill ai lefel Cymraeg cwrteisi neu gyda sgiliau Cymraeg penodol yn unol â'r matrices sgiliau. Mae'r drefn ar gyfer y ddwy ffordd o recriwtio ychydig yn wahanol:

- Bydd unrhyw swyddi y mae ganddynt ofynion sgiliau iaith ynghlwm â hwy yn defnyddio cyfuniad o lefelau sgiliau iaith o'r matrices. Caiff y lefelau eu pennu yn unol â gofynion y swydd, a chapasiti dwyieithog presennol y tîm neu'r gwasanaeth. Mae sgiliau iaith yn cael eu profi fel rhan o'r broses ddethol, naill ai fel rhan o'r cyfweiliad, neu fel asesiad ar wahân. Bydd profion yn cael eu llunio yn seiliedig ar swyddi unigol er mwyn adlewyrchu anghenion y swydd o ddydd i ddydd.
- Dynodir gofyniad lefel cwrteisi ar gyfer unrhyw swydd nad oes iddi ofynion sgiliau iaith penodol. Cynhelir asesiadau lefel cwrteisi fel rhan o'r broses ddethol ar ddiwrnod y cyfweiliad, neu'r ganolfan asesu. Unwaith y bydd unigolyn wedi cael eu hasesu ac wedi dangos eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer lefel cwrteisi, bydd yn derbyn tystysgrif. Bydd y dystysgrif honno yn para dwy flynedd, ac ni fydd angen iddynt gael eu hasesu eto yn ystod y cyfnod hwnnw.

Asesiadau Lefel Cwrteisi

Rhennir yr asesiad yn ddwy ran, sef ynganu a chwarteisi. Mae'r rhan gyntaf yn ymwneud â chyfathrebu ar lafar, gyda phwyslais ar ynganu geiriau ac enwau yn gywir, ac ymateb i ymadroddion cyffredin. Mae'r ail ran yn ymwneud â chyfathrebu ysgrifenedig, gyda phwyslais ar ddefnyddio'r wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael i ddeall testun syml, ailadroddus, ac i ymdrin yn gwrtais ac yn effeithiol â thestun llai syml trwy ddefnyddio gwasanaethau neu dechnoleg yn briodol.

Os na fydd ymgeisydd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyrraedd lefel cwrteisi adeg yr asesiad, ni fydd hynny yn golygu nad oes modd iddynt gael eu penodi i'r swydd. Cânt eu penodi ar yr amod eu bod yn cyrraedd y lefel angenrheidiol fel rhan o'u cyfnod prawf, a rhoddir hyfforddiant iddynt er mwyn cyrraedd y nod. Gellir teilwra'r hyfforddiant i union anghenion unrhyw aelod o staff, a bydd yr union gyfnod ar gyfer cyrraedd y nod yn cael ei gytuno gan y rheolwr llinell, yr aelod o staff a'r tiwtor.

Datblygwyd adnoddau ar gyfer swyddi Cymraeg lefel cwrteisi gan gynnwys fideo, ffeiliau sain a sgrïptiau er mwyn tawelu meddyliau a chynnig cymorth i ymgeiswyr. Gellir gweld yr holl adnoddau hyn ar ein gwefan, ac mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi datblygu modiwl hyfforddiant Cymraeg lefel cwrteisi er mwyn cefnogi unigolion a thimau. Mae cyfleoedd rheolaidd i aelodau o staff Comisiwn y Cynulliad gael eu hyfforddi a'u hasesu a gwelwyd nifer fawr o aelodau o staff yn dewis cael eu hasesu cyn ymgeisio am swyddi.

http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/official_languages/Pages/recruitment.aspx



Mae hyn wedi cael effaith ar ethos y sefydliad o ran annog a hwyluso gweithio dwyieithog a pharodrwydd i gynnig gwasanaethau dwyieithog yn rhagweithiol ac yn ddiodyn. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg neu hyfforddiant gloywi iaith wrth i nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â'r Tîm Sgiliau Iaith trwy asesiadau gynyddu.

Mae cyflwyno lefelau sgiliau iaith yn ogystal â Chymraeg lefel cwrteisi yn golygu bod patrwm y sgiliau iaith ar draws y sefydliad wedi newid. Roeddem yn ymwybodol nad oedd dysgwyr Cymraeg yn debygol o wneud cais am swyddi oedd yn cael eu disgrifio fel rhai 'Cymraeg yn hanfodol'. Bellach, mae llawer mwy o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr Cymraeg wrth i'r union lefelau sgiliau gael eu disgrifio ar gyfer pob swydd. Rydym yn annog ein holl aelodau staff i fynd ati yn rhagweithiol i ddefnyddio'u sgiliau iaith ar bob lefel er mwyn i ethos dwyieithog y sefydliad ffynnu yn naturiol.



Thema 2: Sgiliau Iaith

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ffurfiolwyd y ffordd y mae dysgwyr yn cofrestru ar gyfer gwersi trwy gyfrwng cytundeb dysgu. Bydd pob dysgwr yn derbyn cytundeb, a bydd gofyn i'r dysgwr, y rheolwr llinell a'r tiwtor ei lofnodi. Diben y cytundeb yw sicrhau bod y tri pharti yn deall ac yn cydnabod eu rôl nhw yn y broses.

Mae gofyn i'r dysgwr gytuno i fynychu gwersi yn rheolaidd a manteisio ar gyfleoedd dysgu anffurfiol ac adolygu pellach fel y bo'n briodol. Bydd y rheolwr llinell yn cytuno i gefnogi'r dysgwr ac i sicrhau bod modd iddynt fynychu gwersi yn rheolaidd. Bydd y tiwtor yn ymrwymo i ddeall dulliau ac anghenion dysgu'r dysgwr ac i ddarparu adborth yn rheolaidd.

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn treialu system o ddarparu adborth unwaith bob tymor. Bydd copi o'r adborth ar gael i'r rheolwr llinell hefyd. Mae'r adborth yn cynorthwyo'r dysgwr i ddeall pa gynnydd y mae wedi'i wneud dros y tymor, a hefyd i gynllunio ei d/ddysgu ar gyfer y tymor sydd i ddod. Gall y rheolwr llinell hefyd weld manteision rhyddhau staff ar gyfer cyfleoedd dysgu a deall mwy am sut mae sgiliau iaith y tîm yn newid wrth i'r dysgwyr o fewn y tîm wneud cynnydd. Treialwyd cytundeb ychydig yn wahanol ar gyfer Aelodau Cynulliad, gyda'r dysgwr a'r tiwtor yn trafod ac yn cynllunio llwybr dysgu'r unigolion yn unol â'u dymuniadau personol.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni hyfforddiant pwrpasol ar gyfer Aelodau Cynulliad a'u staff, yn ogystal â staff Comisiwn y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi treialu dulliau dysgu penodol ar gyfer rhannau penodol o'r sefydliad. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ar ystâd y Cynulliad fis Awst 2018, darparwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i swyddogion y Gwasanaeth Diogelwch oedd yn siaradwyr Cymraeg. Diben yr hyfforddiant oedd cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd ac i gefnogi eu cydweithwyr sy'n ddysgwyr. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith hefyd yn gweithio gyda'r swyddogion diogelwch sy'n ddysgwyr nid yn unig i ddatblygu eu sgiliau, ond i sicrhau eu bod yn dysgu geirfa ac ymadroddion sy'n addas ar gyfer eu gwaith bob dydd. Caiff yr un sesiwn ei ddarparu ddwywaith bob wythnos er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad oes modd rhyddhau swyddogion diogelwch ar yr un amser bob wythnos.



Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Sgiliau Iaith hefyd wedi treialu dulliau amgen o ddysgu gyda gwahanol grwpiau o fyfyrwyr ar wahanol lefelau. Sefydlwyd system llwyddiannus er haf 2018 sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr dderbyn hyfforddiant dwys dros gyfnod o ddiwrnod neu fwy yn ystod toriadau'r Cynulliad. Bydd y dysgwyr yn parhau i dderbyn gwersi rheolaidd o hyd at 2 awr yr wythnos yn ystod y tymhorau ond yn cyflymu eu dysgu trwy gymryd rhan mewn sesiynau dwys fydd yn para hyd at ddau ddiwrnod ar y tro yn ystod y toriad. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd sylweddol a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol iawn o ran hyder a sgiliau'r dysgwyr wrth ddefnyddio'r dull hwn.

Eleni ymgeisiodd 11 o fyfyrwyr mewn arholiadau CBAC ar gyfer Cymraeg ail iaith, gyda phob un ohonynt yn llwyddiannus. Disgwylir i nifer yr ymgeiswyr arholiadau gynyddu unwaith eto yn y flwyddyn 2019-20. Yn ogystal â'r ddarpariaeth fewnol, mae nifer o ddysgwyr hefyd wedi gwneud defnydd o ddarpariaeth cyrsiau preswyl Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rydym yn disgwyl i nifer y dysgwyr sy'n gwneud defnydd o'r ddarpariaeth hon i gynorthwyo eu dysgu gynyddu eleni.

Mae'r ddarpariaeth gloywi iaith i siaradwyr rhugl Cymraeg yn parhau. Mae'r sesiwn ar ddefnyddio'r Gymraeg ar y Cyfrifiadur yn boblogaidd ymysg siaradwyr rhugl, dysgwyr a'r rhai sydd ond ag ychydig o sgiliau Cymraeg. Eleni, rhoddwyd y gyfres o sesiynau gloywi iaith i wahanol grwpiau o fewn y Cynulliad: staff y Comisiwn, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ac ambell Aelod Cynulliad. Darperir y sesiynau naill ai i grwpiau bach neu ar lefel un-i-un, a chânt eu teilwra yn ôl y gofyn. Mae'r sesiynau yn magu hyder y rhai sy'n mynychu yn eu Cymraeg ysgrifenedig.

Thema 3: Cynllunio Ieithyddol

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r system recriwtio newydd, y dull newydd o ddiffinio sgiliau iaith a'r ddarpariaeth hyfforddiant sgiliau iaith sydd ar gael, mae cynllunio ieithyddol yn hollbwysig. Yn sgil cyflwyno'r system recriwtio newydd, disgwylir i sgiliau Cymraeg y gweithlu gynyddu dros amser.

Bydd angen cynllunio manwl er mwyn sicrhau bod sgiliau Cymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig – yn cael eu defnyddio a'u datblygu i'r eithaf o fewn timau ar draws y Comisiwn. Ers cyflwyno'r matrices sgiliau iaith newydd, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi bod yn peilota sawl ymagwedd o gofnodi sgiliau iaith o fewn cynlluniau iaith y gwasanaethau unigol. Mae penaethiaid gwasanaeth ac arweinwyr timau yn gweithio gyda chydgyssylltwyr ieithoedd swyddogol y gwasanaethau i ddiffinio'r lefelau sgiliau iaith sydd eu hangen ar gyfer pob swydd o fewn y gwasanaeth.

Mae amrywiaeth eang o ran natur gwaith y gwasanaethau ar draws y sefydliad, felly mae pob cynllun iaith yn wahanol ac wedi'i deilwra ar gyfer y gwasanaeth dan sylw. Fodd bynnag, bydd pob cynllun yn nodi lefelau sgiliau swyddi ac unigolion, ac yn cofnodi unrhyw drefniadau rhwng gwasanaethau ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog.

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau unigol yn dilyn yr un egwyddorion o ran cynllunio ieithyddol mae'r holl gynlluniau yn cael eu dilysu ar lefel Cyfarwyddwr. Yn ogystal â sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau, mae'r cam hwn yn y broses yn cynnig sicrwydd i aelodau'r Bwrdd Gweithredol bod y cynlluniau iaith yn briodol a bod gwasanaethau yn rhoi ystyriaeth gadarn i gapasiti dwyieithog pan fyddant yn ystyried materion recriwtio.

Thema 4: Trafodion y Cynulliad

Mae gwaith y timau integredig yn hollbwysig ar gyfer galluogi Aelodau i gymryd rhan mewn trafodion yn eu dewis iaith. Bydd y timau yn cwrdd gydag Aelodau'n rheolaidd i drafod eu hanghenion ac yn sicrhau bod unrhyw adborth ar wasanaethau'n cael ei fwydo yn ôl i'r gwasanaeth o dan sylw. Wrth i aelodaeth pwyllgorau newid, mae'r timau integredig yn dod i adnabod anghenion yr aelodau newydd ac yn sicrhau bod prosesau ac amserlenni yn newid er mwyn ymateb i'r anghenion hynny. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd enghreifftiau o bwyllgorau yn trefnu eu busnes yn wahanol er mwyn sicrhau bod Aelodau yn gallu derbyn papurau briffio dwyieithog ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, a phwyllgorau yn addasu eu darpariaeth ddwyieithog yn unol â dymuniadau aelodau newydd.

Wrth i aelodaeth pwyllgorau a deiliaid swyddi newid, mae'r Tîm Sgiliau iaith wrth law i ddarparu hyfforddiant gloywi iaith a chefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau Cynulliad sy'n dymuno dysgu neu wella eu sgiliau. Mae hyn yn cynnwys darparu sesiynau unigol yn rheolaidd a sesiynau ad-hoc ar gyfer digwyddiad neu fater penodol hefyd.

Mae'r gwaith o gynorthwyo Aelodau Cynulliad i ddylunio gwefannau dwyieithog wedi parhau dros y flwyddyn. Mae'r Cyfeillion Cyswllt yn bwynt cyswllt defnyddiol ar gyfer Aelodau sy'n dymuno cychwyn ar y gwaith, ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi cynorthwyo gyda'r trefniadau ymarferol ar gyfer comisiynu cyfieithiadau. Lanswyd ardal newydd ar Fewnrwyd yr Aelodau hefyd sy'n cynnig cyngor ac arweiniad i Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth ar faterion yn ymwneud â gweithio'n ddwyieithog. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn casglu adborth yn gyson ar y math o faterion yr hoffai Aelodau Cynulliad dderbyn cymorth pellach arnynt, ac yn datblygu negeseuon a deunydd priodol os nad yw ar gael eisoes.

Astudiaeth achos – recriwtio

Ers cyflwyno'r system recriwtio newydd, a'r gwaith pellach ar gynllunio capasiti dwyieithog ar draws y sefydliad, gwelwyd peuoedd dwyieithog yn cael eu sefydlu.

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i anghenion Cadeiryddion pwyllgorau sy'n siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr, ac mae'r cynlluniau iaith ar gyfer y gwasanaethau hynny yn adlewyrchu'r anghenion hynny yn fwy clir.

Wrth i aelodau staff symud swyddi, mae ambell i dîm wedi gweld cyfleoedd hefyd i gryfhau'r capasiti dwyieithog er mwyn darparu gwasanaethau dwyieithog gwell i Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth.




Astudiaeth achos – Llofnod awtomatig

Roedd angen diweddarau diwyg llofnodion awtomatig staff Comisiwn y Cynulliad er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i frand y sefydliad.

Roedd hyn yn gyfle i gysoni'r ffordd y mae pobl yn llunio eu llofnodion, ac i gynnwys gwybodaeth safonol am unigolion. Fel rhan o'r broses gynllunio, penderfynodd y tîm dylunio y byddai hefyd yn gyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar draws y sefydliad nodi hynny heb ormod o ofynion technegol. Cynlluniwyd llofnodion awtomatig sy'n cynnwys arwydd 'iaith gwaith' neu 'dysgwr'. Hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb pellach, penderfynwyd dylunio pecyn o negeseuon awtomatig sy'n cynnwys llofnod llawn, llofnod byr ar gyfer cyfathrebu mewnol, a neges allan o'r swyddfa.

Dyluniwyd y neges mewn ffordd sy'n golygu bod modd i unigolion nad ydynt yn medru'r Gymraeg ychwanegu dyddiadau a chreu negeseuon dwyieithog yn annibynnol.

Mae cynnwys y neges allan o'r swyddfa fel rhan o'r pecyn yn golygu ein bod yn lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio a gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol hefyd.



Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

Adnabod Aelodau Staff Dwyieithog

Mae'r gwaith ar adnabod aelodau staff dwyieithog yn weledol wedi golygu bod y rhan fwyaf o aelodau staff dwyieithog yn gwisgo llinynnau gwddf neu fathodynau 'iaith gwaith' a nifer fawr o ddysgwyr yn gwisgo llinynnau gwddf neu fathodynau 'dysgwr'. Mae hyn yn golygu ei fod yn haws o lawer adnabod aelodau o staff sy'n gallu darparu gwasanaethau dwyieithog. Er mwyn annog gymaint o'n staff â phosibl i ddefnyddio'r dulliau hyn, bydd pob Aelod Cynulliad, aelod staff cymorth neu aelod staff newydd yn gallu dewis llinyn 'iaith gwaith', 'dysgwr', neu un plaen fel rhan o'r broses o drefnu pas ar gyfer yr adeilad. Rydym hefyd wedi ymchwilio i ddulliau newydd o adnabod siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr ar e-bost.

Ymwybyddiaeth

Unwaith eto eleni, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi gweithio ar gynnal ymwybyddiaeth staff Comisiwn y Cynulliad o ofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Yn ystod wythnosau cyntaf pob aelod newydd o staff, byddant yn gwyllo fideo ac yn trafod gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol gyda'u Cydgysylltydd Ieithoedd Swyddogol. Er mwyn atgyfnerthu eu dealltwriaeth, mae sesiwn ar weithio'n ddwyieithog hefyd yn rhan o'r diwrnod hyfforddiant cynefino corfforaethol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yn ystod un o gyfarfodydd y Fforwm Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yr aelodau yn gyfoes, a'u bod yn cyflwyno'r wybodaeth gywir i aelodau newydd o staff o fewn eu gwasanaethau.

Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn parhau i gynnal digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys Diwrnod Shwmae - Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Defnyddiwyd y dyddiadau hyn fel cyfle i annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau iaith boed ar lafar neu yn ysgrifenedig ac i hyrwyddo darpariaeth y Tîm Sgiliau Iaith.



Astudiaeth achos – matiau cwrw

Fel rhan o'r digwyddiad Shwmae – Su'mae eleni manteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r adnoddau a ddarparwyd ar-lein gan yr ymgyrch genedlaethol.

Argraffwyd copïau o'r matiau cwrw ar gyfer dysgwyr er mwyn eu dosbarthu ym mwyty'r staff. Yn ystod yr wythnos honno, sylwodd rheolwr bwyty'r staff ar nifer o fyrddau lle roedd y matiau yn cael eu trafod a'u defnyddio i sbarduno sgwrs ac i roi cynnig ar ychydig o eiriau o Gymraeg. Awgrymodd y byddai'n syniad i ni ddatblygu cyfres o fatiau gyda'r un nod, sef sbarduno sgwrs yn Gymraeg neu yn gyfle am ychydig o ddysgu anffurfiol. Ers hynny, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi paratoi matiau ar thema'r Nadolig, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, a Chymraeg ar gyfer eich gwyliau. Roedd y tîm hefyd wedi paratoi mat arbennig ar gyfer wythnos Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd.



Technoleg

Mae sawl prosiect technolegol cyffrous ar y gweill o ran technoleg iaith ar hyn o bryd. Mae prosiect CorCenCC (Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes) wedi bod yn casglu testun Cymraeg o wefannau, blogiau ac ati ac wedi defnyddio sawl elfen o ddarpariaeth ddwyieithog y Cynulliad. Diben y prosiect yw creu cronfa ar-lein, chwiladwy o Gymraeg cyfoes. Bydd defnyddwyr yn gallu chwilio'r gronfa am eiriau a gweld enghreifftiau o'r geiriau hynny mewn cyd-destun er mwyn gweld sut mae siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu defnyddio yn eu bywydau pob dydd.

Rydym hefyd yn bwriadu cymryd rhan yng nghynllun Common Voice Mozilla i helpu i ddysgu peiriannau sut mae pobl yn siarad. Crëwyd platfform ar-lein ar gyfer torfoli recordiadau o bobl yn siarad mewn gwahanol ieithoedd gan gynnwys y Gymraeg gyda'r bwriad o'i droi yn ffynhonnell werthfawr i ddatblygu technoleg llais-i-destun Cymraeg. Mae hyn yn gyfle rhagorol i'r Cynulliad gyfrannu at brosiect a allai yn y pendraw fod yn sail i greu technoleg llais-i-destun ar gyfer y Gymraeg. Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymgyrch yn ddiweddarach eleni trwy drefnu diwrnod penodol i Aelodau Cynulliad, eu staff cymorth a staff Comisiwn y Cynulliad gyfrannu eu lleisiau. Y nod yw cynyddu maint y gronfa ddata ac annog cyfranwyr ar y diwrnod i barhau i wneud hynny bob dydd yn eu hamser sbâr, neu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau er mwyn cynorthwyo'r prosiect i gasglu gymaint o leisiau ag y bo modd.

Monitro a Chydymffurfio

Mae'r Tîm Ieithoedd Swydddogol, trwy ei waith monitro, a chyda cefnogaeth y Cydgysylltwyr Ieithoedd Swydddogol, yn cofnodi manylion unrhyw gwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. O ran rhoi adborth, mae Comisiwn y Cynulliad yn paratoi adroddiad misol yn nodi unrhyw ganmoliaeth neu gwynion a dderbyniwyd gan y cyhoedd trwy ein llinell gyswllt neu'r dulliau arferol o ddarparu adborth ar ymweliadau â'r ystâd. Mae'r adroddiad yn nodi manylion bras unrhyw gwynion, a'n hymateb iddynt.

Wrth ymdrin â chwynion, mae Fforwm Cydgysylltwyr Ieithoedd Swydddogol yn trafod unrhyw gwynion yn ôl yr angen. Os bydd achosion o fethu â chydymffurfio â'r Cynllun, y Cydgysylltydd yw'r pwynt cyswllt cyntaf o ran sicrhau bod prosesau'n cael eu haddasu a'u cryfhau er mwyn osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol. Caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu yn ôl yr angen hefyd.

Ar adegau yn ystod y flwyddyn, rydym wedi methu â chyrraedd y safonau uchel rydym yn eu gosod, neu wedi methu â chyrraedd disgwyliadau'r sawl sy'n dod i gysylltiad â ni, boed yn Aelodau Cynulliad a'u Staff, neu yn aelodau o'r cyhoedd. Daeth nifer o gwynion i law eleni, a llwyddwyd i ymdrin â'r rhan fwyaf ohonynt drwy'r broses anffurfiol, heb yr angen iddynt gael eu hystyried o dan y broses gwyno ffurfiol. Ceir manylion y cwynion isod:

Cwynion anffurfiol:

Gwybodaeth ar ein gwefan

Fel y llynedd, bu adegau pan rydym wedi methu â chyhoeddi dogfennau yn unol â gofynion ein Cynllun.

Roedd y cwynion a ddaeth i law yn ymwneud â dogfennau busnes yn bennaf. Derbyniwyd sawl cwyn ynghylch brawddegau neu ddarnau o destun Saesneg yn ymddangos yng nghanol agendâu a dogfennau busnes. Parodd hyn rhwystredigaeth i achwynwyr oedd wedi gorfod tynnu ein sylw at y mater ar sawl achlysur. Ar ôl ymchwilio i'r broblem ymhellach darganfuwyd mai mater technegol gyda'r feddalwedd ar gyfer cyhoeddi'r dogfennau oedd yn achosi'r amryfusedd ac nid camgymeriad ar ran y sawl oedd yn cyhoeddi'r dogfennau.

Cafwyd ambell i gŵyn am lincs yn arwain at ddogfennau Saesneg, neu lincs wedi torri hefyd. Felly, aethpwyd ati i ailedrych ar ein prosesau er mwyn sicrhau ein bod yn gwirio yn fwy manwl wrth gyhoeddi. Ar bob achlysur, trafodwyd y broblem

gyda'r timau perthnasol, gan gynnig hyfforddiant neu gymorth yn ôl yr angen, ac i atgyfnerthu'r angen i wirio bod dogfennau yn gywir yn y ddwy iaith bob amser. Mae hyn wedi arwain at lai o gwynion am destun Saesneg ar dudalennau Cymraeg, a lincs priodol ar y wefan, sydd yn cynnig profiad gwell o lawer i'r defnyddiwr.

Gohebiaeth

Yn anffodus cafwyd sawl enghraifft eleni o beidio ystyried dewis iaith y derbynnydd wrth anfon neu ymateb i ohebiaeth. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd aelodau o staff wedi cysylltu â ni i nodi nad oeddent wedi derbyn gohebiaeth yn eu dewis iaith neu yn ddwyieithog. O ganlyniad cafwyd cyfle i ddatrys y broblem yn weddol fuan wedi'r digwyddiad.

Fodd bynnag, yn ddiweddar, cysylltodd aelod o'r cyhoedd â ni i nodi nad oedd yn fodlon ar ymateb yr oedd wedi ei dderbyn i ohebiaeth a anfonwyd atom yn Gymraeg. Ar ôl ymchwilio i'r adborth a ddaeth i law, darganfuwyd mai camgymeriad gan aelod o staff oedd wedi arwain at hyn. Mae'r tîm penodol hwnnw ar hyn o bryd yn ystyried ei brosesau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno camau fydd yn ein hatal rhag methu â chydymffurfio â'r cynllun yn y ffordd hon eto. Wedi i ni dderbyn yr adborth hwn, aethpwyd ati ar unwaith i atgoffa ein holl staff am yr angen i ystyried dewis iaith y sawl sy'n gohebu â ni.

Darparwyd canllawiau hefyd ar sut i lunio negeseuon e-bost dwyieithog a'r cymorth sydd ar gael gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi o ran gwirio a phrawf ddarllen neu gyfieithu testun. Mae'n holl bwysig ein bod yn gwarchod yr egwyddor bod hawl gan bawb i ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith.

Rhagosod dewis iaith ar offer cyfrifiadurol ar gyfer aelodau newydd o staff

Derbyniwyd cwyn trwy law Pennaeth Staff plaid wleidyddol nad oedd y dewisiadau iaith a nodwyd gan ymgeiswyr yn ystod prosesau recriwtio yn cael eu defnyddio i osod iaith rhyngwyneb cyfrifiadurol yr ymgeisydd llwyddiannus. Roedd hyn yn golygu mai Saesneg oedd iaith y rhyngwyneb i bawb, a bod yn rhaid i aelodau newydd o staff wneud cais i newid iaith y rhyngwyneb.

Wedi trafod y manylion gyda'r Pennaeth Staff, trefnwyd i'r aelod newydd o staff, ac unrhyw aelodau eraill o staff gael cymorth i newid iaith eu rhyngwyneb.

Ymrwymwyd hefyd i newid y trefniadau ar gyfer cofnodi gofynion ieithyddol aelodau newydd o staff mewn perthynas â iaith eu hoffer cyfrifiadurol. Newidiwyd y ffurflen gais archebu proffil fydd yn cael ei llenwi ar y cyd rhwng yr aelod

newydd o staff a'r rheolwr llinell cyn iddynt ddechrau yn y swydd i nodi yn fwy manwl y dewisiadau sydd ar gael. Mae hyn yn golygu bod modd bellach i aelodau newydd o staff ddewis ym mha iaith eu rhyngwyneb cyfrifiadurol, a'u cyfeiriad e-bost cyn cychwyn yn y swydd.

Os bydd aelod newydd o staff yn dymuno newid eu dewisiadau ar ôl dechrau yn y swydd, gellir trefnu gwneud hynny yn fuan hefyd.

Cwyn ffurfiol

Yn anffodus, eleni am y tro cyntaf, derbyniwyd cwyn ffurfiol ynghylch ein darpariaeth hyfforddiant cynefino corfforaethol ar gyfer staff cymorth Aelodau Cynulliad.

Cyflwynwyd y gŵyn yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2018, ac yn unol â'r polisi cwynion, ymdrechwyd i fynd i'r afael â'r broblem yn anffurfiol yn y lle cyntaf.

Roedd aelod newydd o staff cymorth wedi mynegi siom ei fod wedi derbyn hyfforddiant cynefino corfforaethol yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Saesneg, ac na roddwyd sylw digonol i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth weithio'n ddwyieithog yn ystod yr hyfforddiant. Wrth ymateb i'r gŵyn anffurfiol, amlinellwyd nifer o gamau gweithredu er mwyn gwella'r sefyllfa gan gynnwys darparu sesiwn ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gweithio'n ddwyieithog a darparu holl ddeunyddiau'r cwrs yn ddwyieithog. Ymrwymwyd hefyd i nodi dewis iaith y sawl fydd yn derbyn yr hyfforddiant er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno'r hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu yn ddwyieithog gan ddibynnu ar ofynion y gynulleidfa.

Cyflwynwyd cwyn bellach ym mis Ionawr 2019 yn nodi nad oedd yr holl gamau gweithredu a amlinellwyd mewn ymateb i'r adborth gwreiddiol wedi eu cymryd. Ymdriniwyd â'r gŵyn yn unol â cham 2 y polisi cwynion, ac enwebwyd swyddog i ymchwilio iddi.

Canfuwyd bod y gŵyn yn ddilys a nodwyd bod diffygion yn y ddarpariaeth hyfforddiant cynefino corfforaethol. Cadarnhawyd bod hyn yn gwbl groes i ddarpariaethau statudol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, ac yn groes i ysbryd y cynnig diamod sydd yn sail i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Yn ystod yr ymchwiliad canfuwyd rhesymau penodol am y diffyg o ran yr hyfforddiant yn bennaf yn ymwneud â'r modd y cafodd gwybodaeth ei throsglwyddo i aelod newydd o staff.

Yn dilyn yr ymchwiliad, cymerwyd camau i sicrhau bod trefniadau gwell ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng aelodau o staff sy'n ymadael, a'r rhai sy'n ymuno â'r tîm. Penderfynwyd hefyd y dylid cyflwyno sesiynau cyfrwng Cymraeg, a chyfrwng Saesneg bob yn ail. Golyga hyn bod modd i ddechreuwr newydd gofrestru ar gyfer cwrs yn eu dewis iaith heb orfod aros yn rhy hir. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi cydweithio gyda'r Tîm Datblygiad Proffesiynol i edrych ar eu prosesau ac i lunio canllawiau desg ar gyfer trefnu hyfforddiant yn y dyfodol.

Yn ystod y ddadl ar yr adroddiad blynyddol y llynedd, ymrwymwyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y cwynion a dderbyniwyd. Mae'r tabl isod yn darparu manylion natur y gŵyn a'r camau a gymerwyd.

Tabl 6: Mae'r tabl isod yn darparu manylion natur y gŵyn a'r camau a gymerwyd.

Natur y gŵyn	Camau a gymerwyd
Ymateb uniaith Saesneg i ymholiad cyfrwng Cymraeg i'r tîm arlwyo	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Trafod gyda'r tîm ▪ Sefydlu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth cyfrwng Cymraeg ▪
Diffyg rhyngwyneb Cymraeg ar liniadur a ddarparwyd mewn cyfarfod grŵp trawsbleidiol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Newid trefniadau ar gyfer dyrannu gliniaduron ▪
Testun Saesneg ar ochr Gymraeg y wefan	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Pwysleisio'r angen i aelodau o staff wirio testun cyn cyhoeddi er mwyn osgoi camgymeriadau ▪
Testun Saesneg ar ochr Gymraeg y wefan	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Pwysleisio'r angen i aelodau o staff wirio testun cyn cyhoeddi er mwyn osgoi camgymeriadau ▪
Testun Saesneg ar ochr Gymraeg y wefan	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Addasu'r systemau ar gyfer cyhoeddi busnes y Cynulliad ▪ Pwysleisio'r angen i aelodau o staff wirio testun cyn cyhoeddi er mwyn osgoi camgymeriadau ▪ Darparu manylion ▪

Natur y gŵyn	Camau a gymerwyd
Ymateb uniaith Saesneg i e-bost gan aelod o'r cyhoedd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymddiheuriad ac ymrwymiad i ymchwilio ▪ Ymchwilio ▪ Adolygu prosesau'r tîm dan sylw ▪
Offer cyfrifiadurol staff newydd wedi'u rhagosod yn Saesneg	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Newid y broses o gasglu gwybodaeth am ddewisiadau ar gyfer offer cyfrifiadurol ▪
Hyfforddiant cynefino staff cymorth - diffyg darpariaeth ddwyieithog a chynnwys yn ymwneud â'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymchwilio ▪ Ymateb i'r achwynydd yn amlinellu'r camau a gymerwyd a'r gwelliannau a gynlluniwyd ▪
Cwyn Swydddogol - Camau mewn ymateb i gŵyn am hyfforddiant staff cymorth heb eu cymryd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymdrin â'r gŵyn yn unol â cham 2 y polisi cwynion ▪ Canfod fod y gŵyn yn ddilys ▪ Rhoi camau ar waith i unioni'r diffyg gwreiddiol

Adborth Positif

Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn derbyn llawer o adborth positif. Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw adborth a chaiff enghreifftiau o arferion da eu rhannu ar draws y sefydliad.



Rydym yn ymwybodol bod pobl yn arfer dewis peidio â gwneud cais am swyddi a hysbysebwyd gyda gofyniad iaith 'Cymraeg yn hanfodol'. Ers cyflwyno disgrifiadau ar wahanol lefelau y llynedd ar gyfer darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando y llynedd, rydym wedi gweld hysbysebion swyddi yn cael eu datblygu o amgylch anghenion swyddi. Wrth gynllunio a disgrifio lefelau er mwyn helpu sicrhau nad yw unigolion yn dewis peidio â gwneud cais, rydym yn gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg sy'n cael eu penodi i swyddi sy'n dangos gwerth y buddsoddiad mewn hyfforddiant sgiliau iaith ar gyfer yr unigolyn a'r sefydliad."

Craig Stephenson,

Cyfarwyddwr Ymgysylltu



Wrth wneud cais am swydd gyda gofyniad Cymraeg lefel cwrteisi, doeddwn i ddim yn siŵr beth yn union i'w ddisgwyl, neu beth oedd lefel fy sgiliau. Nid oeddwn wedi derbyn unrhyw hyfforddiant gan y Tîm Sgiliau Iaith. Fodd bynnag, roedd yr asesiad yn weddol anffurfiol, ac yn para dim ond 10 munud. Roedd cyrraedd y lefel angenrheidiol yn yr asesiad wedi gwneud i fi feddwl yn wahanol am union ystyr Cymraeg lefel cwrteisi. Mae fy mhrofiad o weithio mewn awyrgylch ddwyieithog wedi caniatáu i mi ddatblygu'r sgiliau hynny heb yr angen am hyfforddiant ffurfiol.

Georgina Owen,

Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau



Roedd ein hymweliad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiddorol iawn. Gwnaeth y gwaith ar recriwtio ac ethos dwyieithog y sefydliad gryn argraff arnom. Rydym yn sicr yn bwriadu defnyddio rhai o'r syniadau o ran adnoddau hyfforddi, a'r dull hyblyg o ddarparu hyfforddiant sgiliau iaith yma yn Senedd Sami Norwy.

Lisa Monica Aslaksen,

Uwch-gynghorydd Adnoddau Dynol, Senedd Sami Norwy



Gweithiodd Tîm yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth gyda'r Tîm Sgiliau Iaith i beilota dull newydd o ddarparu hyfforddiant Cymraeg lefel cwrteisi ar gyfer timau. Roedd dysgu ar y cyd, a chefnogi'i gilydd yn brofiad gwerthfawr i bawb. Mae pob aelod o'r tîm bellach wedi symud ymlaen i dderbyn hyfforddiant sgiliau iaith pellach neu wedi cofrestru ar gyfer gwersi Cymraeg.

Kathryn Potter,

Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil



Fel aelod o staff sydd wedi dychwelyd i weithio yn y Cynulliad ar ôl mwy na degawd, rydw i wedi gweld trawsnewidiad yn ethos y sefydliad. Bellach, mae gweithio'n ddwyieithog yn norm, ac mae darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf yn rhan greiddiol o'n gwaith.

Siwan Davies,

Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad



Fel dysgwr Cymraeg a wnaeth gais am swydd oedd yn gofyn am sgiliau iaith lefel 2, roedd y ffaith bod y sgiliau yr wyf wedi eu datblygu yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses recriwtio yn hwb enfawr i mi. Roedd y gefnogaeth ar y diwrnod gan y timau Sgiliau Iaith ac Adnoddau Dynol yn wych. Dyma'r broses recriwtio orau i mi fod yn rhan ohoni. Hyd yn oed pe nad oeddwn yn llwyddiannus, roeddwn i'n falch fy mod wedi llwyddo yn yr asesiad sgiliau iaith.

Jamie Matthews,

Uwch Reolwr Newyddion a Chyfathrebu



Cafodd un aelod o fy staff cymorth gwrs gloywi iaith dwys gan y tîm Sgiliau Iaith yn y Cynulliad. Mae'r sesiynau wedi ei wneud yn llawer mwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ei waith bob dydd ac i roi gwasanaeth dwyieithog o safon i fy etholwyr.

Rhun Ap Iorwerth AC

Aelod Cynulliad dros Ynys Môn
